

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 05/2014

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad canol tymor Ynni'r Fro - crynodeb gweithredol



Gwerthusiad canol tymor Ynni'r Fro - crynodeb gweithredol

Brook Lyndhurst

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Charlotte Gibson

Yr Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

TFfôn: 029 20 82 1681

Ebost: charlotte.gibson@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

ISBN 978-1-4734-0825-8

© Hawlfraint y Goron 2014

Crynodeb Gweithredol

Rhaglen Llywodraeth Cymru a ariennir gan Ewrop yw Ynni'r Fro, i annog datblygiad mentrau ynni adnewyddadwy cymunedol trwy ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth ariannol. Rheolir y rhaglen gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad canol tymor hwn yn awgrymu bod Ynni'r Fro yn cael effaith arwyddocaol o ran galluogi grwpiau cymunedol i gyflawni camau cychwynnol datblygu menter ynni adnewyddadwy. Yn benodol, mae'r cyngor a'r gefnogaeth eang a ddarperir gan ei rwydwaith o Swyddogion Datblygu Technegol (SDTau) yn aml wedi bod yn hollbwysig i'r datblygiad hwn. Fodd bynnag, ceir heriau allanol arwyddocaol hefyd, sydd wedi cyfyngu ar eu cynnydd, gan gynnwys gwrthwynebiad lleol, costau uchel y gwaith paratoadol ac anawsterau'n cael caniatâd a chydsyniad cynllunio. Mae agweddau ar gynllun a darpariaeth y rhaglen wedi lliniaru ei heffaith hyd yn hyn hefyd. Mae Ynni'r Fro yn annhebygol o gyrraedd ei dargedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu ynni a chreu swyddi erbyn diwedd y rhaglen yn 2015, ond mae cynnydd yn debygol o barhau tuag at y rhain yn fwy hirdymor.

Mae argymhellion allweddol ar gyfer cefnogaeth yn y dyfodol trwy Ynni'r Fro ac unrhyw raglen olynol yn cynnwys parhau ac amddiffyn y swyddogaeth SDT, creu cysylltiadau â rhanddeiliaid allanol ac ystyried cyflwyno cyllid benthyciad wrth gefn ar gyfer gwaith paratoadol.

Cyflwyniad

Rhaglen Llywodraeth Cymru i annog datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru yw Ynni'r Fro. Mae'n defnyddio cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i ddarparu tri math o gymorth i grwpiau cymunedol sy'n dymuno datblygu prosiect ynni adnewyddadwy:

- Cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth ymarferol a ddarperir trwy rwydwaith o saith Swyddog Datblygu Technegol (SDT) wedi eu lleoli'n lleol
- Grantiau cam paratoadol o hyd at £30,000 i ariannu gweithgareddau cyn-gosod
- Benthyciadau o hyd at £300,000 neu grantiau o hyd at £250,000 tuag at gostau cyfalaf gwaith gosod

Dechreuodd Ynni'r Fro ym mis Ionawr 2010 a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2015. Adroddwyd ym mis Ebrill 2013 bod bron i 200 o grwpiau cymunedol wedi gwneud cais i'r rhaglen am gymorth.

Comisiynwyd Brook Lyndhurst gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad canol tymor o Ynni'r Fro i asesu ei berfformiad hyd yn hyn ac i nodi argymhellion ar gyfer gwella yn y dyfodol. Roedd pedair elfen i'r gwerthusiad:

- Adolygiad desg o hanes diweddar a chyd-destun polisi Ynni'r Fro
- Arolwg ar-lein o grwpiau cymunedol sydd wedi gwneud cais i Ynni'r Fro am gymorth, i archwilio eu profiadau o ymgysylltu â'r rhaglen ac unrhyw gymorth y maent wedi ei dderbyn yn sgil hynny
- Cyfweiliadau dilynol gyda grwpiau cymunedol dethol a ymatebodd i'r arolwg, i gasglu sylwadau mwy manwl ar eu profiadau
- Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid i drafod cynllun a darpariaeth y rhaglen a'r rhwystrau ehangach i ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru

Hanes diweddar a chyd-destun Ynni'r Fro

Ynni'r Fro yw'r rhaglen fawr gyntaf o gymorth wedi ei thargedu'n benodol at fentrau ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae rhaglenni llywodraethol yn y DU gyfan wedi cynnig cymorth â chyfyngiad amser i nifer fach o fentrau. Gellir gweld bod gan Ynni'r Fro rai nodweddion cadarnhaol mewn cymhariaeth: ei nod yw darparu gwasanaeth cenedlaethol trwy ei SDTau rhanbarthol sydd â chylch gwaith eang o ran y math o gyngor a chefnogaeth maent yn eu darparu; mae'n cynnig cyfuniad o gymorth ariannol ar gyfer y camau paratoadol cynnar a chyllid cyfalaf; ac mae ganddo amserlen hwy, o bum mlynedd, na'r rhan fwyaf o raglenni'r DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei chefnogaeth i ynni adnewyddadwy cymunedol yn rhan o'i hamcanion datblygu cynaliadwy ehangach. Gwnaed newidiadau i ganllawiau cynllunio yn 2011 i nodi y dylid cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy yn gyffredinol, "cyn belled ag y bo effeithiau amgylcheddol yn cael eu hosgoi neu y sicrheir eu bod cyn lleied â phosibl, ac nad yw ardaloedd sydd wedi eu neilltuo'n genedlaethol ac yn rhyngwladol yn cael eu peryglu" (Llywodraeth Cymru, 2011). Adroddwyd y bydd sefydliad diweddar Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain at "fanteision mawr o ran symleiddio'r broses gydsynio" (Llywodraeth Cymru, 2012). Bydd hyn yn golygu manteision arbennig ar gyfer datblygu prosiectau ynni dŵr. Mae grwpiau cymunedol yng Nghymru yn gymwys i dderbyn Tariffau Cyflenwi Trydan¹ hefyd, er nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth uniongyrchol dros eu meini prawf cymhwyso na lefelau eu tariffau.

Nodweddion grwpiau sydd wedi dod i gysylltiad ag Ynni'r Fro

¹ Cyflwynwyd Tariffau Cyflenwi Trydan gan Lywodraeth y DU ym mis Ebrill 2010. Bwriad Tariffau Cyflenwi Trydan yw cymell a galluogi mwy o fuddsoddiad mewn cynhyrchu adnewyddadwy ar raddfa fach (llai na 5MW), trwy ddarparu enillion ar gyfradd sefydlog am ynni a gynhyrchir gan unigolion, grwpiau neu sefydliadau.

Mae'r mathau o grwpiau cymunedol sydd wedi gwneud cais am gymorth trwy Ynni'r Fro yn amrywiol. Roedd y grwpiau a ymatebodd i'r arolwg ar-lein yn cynnwys sefydliadau cymunedol 'traddodiadol' (fel elusennau), yn ogystal â modelau menter gymdeithasol fwy newydd. Roedd y grwpiau a gynrychiolwyd yn yr arolwg hefyd yn amrywio o ran pa mor sefydledig oeddent - dywedodd tua dau o bob tri eu bod wedi bod yn weithredol ers mwy na phum mlynedd ond roedd grwpiau a oedd wedi bod yn weithredol ers llai na blwyddyn hefyd. Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r grwpiau eu hamcanion fel 'adfywio cymunedol' neu roedd ganddynt amcanion cymunedol eraill, yn hytrach na chynhyrchu ynni adnewyddadwy fel y cyfryw.

Roedd y grwpiau hefyd yn dueddol o fod â lefelau isel o allu sefydliadol a phrofiad blaenorol perthnasol. Nid oedd gan tua hanner y grwpiau unrhyw aelodau staff cyflogedig, a hyd yn oed ymhlith y rhai lle'r oedd gweithwyr cyflogedig, dim ond nifer fach oedd hon yn gyffredinol, h.y. 1 i 5. Dywedodd mwy na dwy ran o dair bod ganddynt "gryn dipyn" neu "lawer" o brofiad o redeg prosiectau cymunedol ond dywedodd llai na chwarter bod y lefel hon o brofiad ganddynt o ddatblygu prosiect ynni adnewyddadwy. Roedd mwyafrif y grwpiau ar y camau cynnar o ddatblygu prosiect ynni adnewyddadwy pan wnaethant gais i dderbyn gymorth trwy Ynni'r Fro. Roedd y mwyafrif wedi nodi safle ac wedi gwneud rhyw faith o waith dichonoldeb cychwynnol, ond prin oedd y rhai a oedd wedi mynd ymhell y tu hwnt i hyn.

Anghenion grwpiau sydd wedi dod i gysylltiad ag Ynni'r Fro

Nododd canlyniadau'r arolwg a'r cyfweiliadau gyda grwpiau a rhanddeiliaid sawl her i ddatblygu prosiect ynni adnewyddadwy cymunedol, gan gynnwys:

- **Diffyg gallu, sgiliau a phrofiad.** Yn rhannol, roedd hyn yn adlewyrchiad o nodweddion y grwpiau eu hunain (a ddisgrifir uchod), ond hefyd natur anodd, cymhleth a llafurus datblygu prosiect ynni adnewyddadwy cymunedol. Roedd y grwpiau'n aml yn dibynnu ar un neu ddau o unigolion allweddol yn gweithio ar brosiect, ac roedd achosion lle'r oedd prosiectau wedi arafu neu ddod i ben os oedd yr unigolion hyn wedi gadael.
- **Gwrthwynebiad lleol.** Roedd hon yn her benodol i grwpiau sy'n datblygu prosiectau gwynt. Nodwyd mewn rhai achosion bod gwrthwynebiad lleol croch wedi arwain at roi'r gorau i brosiectau yn y pen draw.
- **Anawsterau yn cael caniatâd a chydysyniad cynllunio.** Roedd hon yn her sylweddol ymhlith grwpiau a oedd wedi dod mor bell â hyn. Tybiwyd bod Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gwrthwynebu ynni adnewyddadwy cymunedol ac nad oeddent yn rhoi ystyriaeth ddigonol i fanteision posibl y prosiectau i gymunedau lleol. Teimlwyd hefyd bod swyddogion ACLlau a CNC weithiau'n rhoi canllawiau a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd i'r grwpiau ar yr hyn yr oedd

angen iddynt ei wneud er mwyn derbyn cymeradwyaeth. Roedd yr anawsterau hyn wedi arwain at brosiectau yn cael eu hoedi'n sylweddol, costau cynyddol, cyfyngiadau difrifol yn cael eu cyflwyno ar faint prosiectau, a rhoi'r gorau i rai prosiectau.

- **Cyllid ar gyfer gwaith paratoadol.** Amcangyfrifwyd bod costau llawn datblygu prosiect ynni adnewyddadwy i'r pwynt lle mae'n barod i ddechrau adeiladu rhwng £50,000 a £120,000. Nid oedd y gallu gan y grwpiau i godi'r arian hwn eu hunain fel rheol ac roeddent yn ddibynnol ar gyllid paratoadol trwy Ynni'r Fro neu ffynonellau eraill.
- **Cyllid cyfalaf.** Ar adeg gwneud y gwaith ymchwil hwn, nid oedd y grwpiau wedi cyrraedd cam adeiladu eu prosiectau yn gyffredinol, ond mynegodd sawl un bryderon am eu gallu i gael gafael ar gyllid cyfalaf pan fyddent yn cyrraedd y cam hwn. Ni ystyriwyd bod cyflwyno cyfranddaliadau yn opsiwn hyfwrw mewn llawer o rannau o Gymru oherwydd y diffyg cyfoeth tybiedig mewn cymunedau lleol, ac roedd y grwpiau'n aml yn wiliadwrus o ddechrau menter ar y cyd i gael gafael ar gyllid gan fuddsoddw preifat. Adroddwyd sawl rhwystr hefyd i grwpiau a oedd yn cael gafael ar gyllid dyled gan ddarparwyr benthyciadau.

Natur y cymorth a roddwyd i grwpiau trwy Ynni'r Fro

Dyweddodd grwpiau a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi derbyn amrywiaeth eang o gymorth trwy Ynni'r Fro, yn enwedig gan SDTau y rhaglen. Er enghraifft, dywedodd fwy na hanner eu bod wedi derbyn cymorth gyda chynnal astudiaethau dichonoldeb, cael gafael ar gyllid paratoadol, cysylltiadau â sefydliadau eraill, cefnogaeth ac anogaeth gyffredinol, cymorth gyda materion cyfreithiol a chynngor technegol. Datgelodd y cyfweiliadau trylwyr gyda'r grwpiau bod SDT hefyd wedi cyflawni sawl gwahanol swyddogaeth wrth gefnogi grwpiau, gan gynnwys gweithredu fel arweinydd, mentor, cyfieithydd, canolwr ac eiriolwr. Roedd dwy ran o dair o sampl yr arolwg wedi derbyn cyllid paratoadol trwy Ynni'r Fro a nodwyd ganddynt fod hyn wedi eu galluogi i dalu costau astudiaethau dichonoldeb, arolygon amgylcheddol a threuliau eraill a oedd yn bwysig i ddatblygiad eu prosiectau. Ar adeg gwneud y gwaith ymchwil, nid oedd unrhyw grŵp wedi derbyn unrhyw gyllid cyfalaf trwy Ynni'r Fro eto, er i dri chwarter o'r ymatebwyr i'r arolwg ddweud eu bod yn bwriadu gwneud cais am hyn yn y dyfodol.

Effeithiau Ynni'r Fro

Mae'r dystiolaeth o'r gwaith ymchwil yn awgrymu bod Ynni'r Fro yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddatblygiad y prosiectau y mae'n eu

cynorthwyo. Yn benodol, mae'n ymddangos bod y cymorth sy'n aml yn ddwys ac yn eang y mae SDTau wedi bod yn ei ddarparu wedi bod yn effeithiol o ran helpu grwpiau i fynd i'r afael â'r heriau sy'n cael eu creu gan allu cyfyngedig a diffyg sgiliau a phrofiad. Yn yr arolwg ar-lein a'r cyfweiliadau trylwyr, roedd gan grwpiau cymunedol farn gyson uchel o bwysigrwydd y cymorth hwn i ddatblygiad eu prosiectau. Hefyd, dywedodd mwyafrif y grwpiau a oedd wedi derbyn cyllid paratoadol trwy Ynni'r Fro bod hwn wedi bod yn hanfodol i ddatblygiad parhaus eu prosiectau. Esboniodd sawl un yn y cyfweiliadau y byddent wedi "rhoi'r gorau iddi" neu "na fyddent wedi gallu ymdopi" heb y cyfuniad o gymorth nad oedd yn ariannol a'r cymorth ariannol roeddent wedi ei dderbyn trwy Ynni'r Fro.

Yn yr un modd, ceir rhai meysydd lle mae'n ymddangos y bu effaith Ynni'r Fro ar ddatblygiad y prosiectau y mae'n eu cynorthwyo yn fwy cyfyngedig. Hyd yn oed gyda chymorth eu SDT, roedd y grwpiau'n dal i gael anawsterau sylweddol yn goresgyn yr heriau a grëwyd gan wrthwynebiad lleol a chael caniatâd a chydysyniad cynllunio i'w prosiectau.

Mae effeithiau Ynni'r Fro ar lefel rhaglen, yn erbyn y targedau a osodwyd gan WEFO, wedi bod yn gymysg. Mae targedau ar gyfer nifer y mentrau a gynorthwywyd ac a grëwyd, a mabwysiadu strategaethau cydraddoldeb a rheoli amgylcheddol wedi eu bodloni yn rhannol neu'n llawn eisoes. Fodd bynnag, roedd disgwyliad cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid a oedd yn rhan o ddarparu Ynni'r Fro na fydd y targedau ar gyfer cynhyrchu ynni, allyriadau nwyon tŷ gwydr a chreu swyddi yn cael eu bodloni'n llawn erbyn diwedd y rhaglen ym mis Mawrth 2015. Mae'r targedau hyn yn amodol ar brosiectau'n cyrraedd mor bell â chynhyrchu ynni yn unol â'r amserlen hon. Yn gyffredinol, mae'r 22 prosiect enghreifftiol sydd wedi bod yn derbyn y cymorth mwyaf dwys trwy Ynni'r Fro yn dal ar gam cais neu gydsyniad cynllunio eu datblygiad, heb unrhyw sicrwydd y bydd pob un ohonynt yn cyflawni'r cam hwn yn gyflym ac yn llwyddiannus. Mae'n debygol y bydd effeithiau llawn Ynni'r Fro yn erbyn ei dargedau ar gyfer cynhyrchu ynni, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chreu swyddi ond yn cael eu gwireddu gryn amser ar ôl diwedd oes y rhaglen.

Ffactorau sy'n lliniaru effaith Ynni'r Fro

Gellir gweld bod cyfres o ffactorau wedi lliniaru effaith Ynni'r Fro:

- **Ffactorau allanol.** Teimlwyd yn eang bod y dryswch cychwynnol ar lefel llywodraeth y DU ynghylch Tariffau Cyflenwi Ynni a rheoliadau cymorth gwladwriaethol yr UE a arweiniodd at atal cymorth ariannol dros dro am 18 mis cyntaf Ynni'r Fro wedi oedi cynnydd y rhaglen. Mae hefyd yn ymddangos bod rhai amwyseddau parhaus ynghylch yr hyn y gellir ac na ellir defnyddio cyllid grant paratoadol Ynni'r Fro ar ei gyfer dan y rheolau

cymorth gwladwriaethol, heb anghymhwysu grwpiau o dderbyn Tariffau Cyflenwi Trydan. Mae angen rhagor o ddeialog rhwng y rhaglen ac Ofgem (sy'n gweinyddu'r cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan) i egluro'r materion hyn. Mae'r ffactorau allanol allweddol eraill yn ymwneud ag agweddau tybiedig awdurdodau cynllunio lleol a CNC at brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol a drafodwyd uchod eisoes.

- **Pwy sy'n derbyn cymorth trwy Ynni'r Fro.** Roedd consensws ymhlith rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â darparu'r rhaglen bod y canolbwynt cychwynnol ar gefnogi prosiectau graddfa fwy yn esbonio'n rhannol y diffyg cynnydd ar lefel y rhaglen gyfan hyd yn hyn. Teimlwyd bod yr heriau sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol yn arbennig o aciwt i brosiectau graddfa fwy, gan olygu eu bod bob amser yn annhebygol o gyflawni eu datblygiad yn ystod oes Ynni'r Fro. Yn fwy cyffredinol, awgrymwyd y gallai Ynni'r Fro fod wedi cynorthwyo prosiectau a oedd yn 'is-optimaid' (o ran eu maint a'u cyfleoedd o lwyddo), a bod y rhaglen o bosibl wedi colli allan ar brosiectau eraill â mwy o botensial, fel rhai llai neu'r rhai a oedd yn defnyddio amrywiaeth ehangach o dechnolegau ynni adnewyddadwy.
- **Y cymorth a ddarperir trwy Ynni'r Fro.** Roedd yr holl ymatebwyr yn teimlo bod cymorth SDT Ynni'r Fro yn 'gweithio' a bod SDTau yn cynorthwyo grwpiau'n effeithiol gyda nifer o agweddau ar ddatblygiad eu prosiectau. Yr unig gyfyngiadau tybiedig ar y gefnogaeth hon oedd i ba raddau y gallai SDTau, ar eu pen eu hunain, alluogi grwpiau i fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynir gan wrthwynebiad lleol sylweddol ac anawsterau yn y broses gynllunio/cydsynio. I raddau helaeth iawn, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn adlewyrchiad o natur anystywallt yr heriau hyn yn hytrach nag unrhyw ddiffygion o ran cymorth y SDT. Ystyriwyd bod cyllid paratoadol Ynni'r Fro yn rhan hanfodol o'r rhaglen hefyd, ond dywedodd llawer o grwpiau a oedd wedi derbyn grantiau eisoes y byddai angen rhagor o gyllid paratoadol ychwanegol arnynt o hyd gan Ynni'r Fro i barhau cynnydd eu prosiectau. Cafwyd sylwadau cymysg ar ddarpariaeth cyllid cyfalaf Ynni'r Fro. Roedd rhai yn teimlo y gallai fod yn afraid neu'n ddiangen hyd yn oed, yn seiliedig ar y disgwyliad y byddai grwpiau yn gallu cael gafael ar y cyfalaf oedd ei angen arnynt yn gymharol rwydd. Roedd eraill yn llawer mwy pesimistaidd am y rhagolygon y byddai grwpiau yn gallu gwneud hyn. Roeddent yn teimlo y byddai cyllid Ynni'r Fro yn gwella'r rhagolygon hyn yn fawr trwy ddarparu'r arian cyfatebol y byddai darparwyr benthyciadau ei angen fel amod ar gyfer darparu benthyciad.
- **Gweinyddu'r rhaglen.** Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni sy'n gyfrifol am weinyddu rhaglen Ynni'r Fro. Roedd grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid yn teimlo y gellid gwella rhai agweddau ar weinyddiaeth Ynni'r Fro. Roedd

cyfathrebu yn fater allweddol - o ran sut y mae gwahanol bartion sy'n ymwneud â darparu'r rhaglen yn cyfathrebu â'i gilydd a chyfathrebiad rhwng y rhaglen a grwpiau cymunedol. Adroddwyd bod hyn, ar achlysur, wedi tanseilio gallu SDTau i gyflawni eu swyddogaeth yn effeithiol ac wedi cyfrannu at ansicrwydd ymhlith grwpiau cymunedol.

- **Rhyngweithio rhwng Ynni'r Fro a chyrrff allanol.** Er bod rhai camau wedi eu cymryd i ymgysylltu â chynrychiolwyr cyrrff allweddol eraill fel Ofgem, CNC ac ACLlau yn ystod y rhaglen, teimlwyd nad oedd digon wedi ei wneud i ffurfioli'r cysylltiadau hyn a dechrau deialog barhaus. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod hyn wedi cyfrannu'n rhannol at yr amwyseddau parhaus ynghylch pa gyllid paratoadol y gellir ei ddefnyddio heb anghymhwyso grwpiau rhag derbyn Tariffau Cyflenwi Trydan, a'r anawsterau a adroddwyd yn y broses gynllunio a chydlynio.

Gwelliannau a Awgrymir

Gwnaed awgrymiadau niferus gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid o ran sut y gellir cefnogi prosiectau yng Nghymru yn well yn y dyfodol, yn ystod Ynni'r Fro ac o bosibl ar ei ôl. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau yn y meysydd canlynol:

- **Pwy sy'n derbyn cymorth.** Roedd cytuno cyffredinol fwy neu lai y dylai prosiectau llai a'r rhai sy'n defnyddio technolegau ac eithrio gwynt neu ddŵr dderbyn cymorth trwy Ynni'r Fro neu raglen olynol yn y dyfodol. Hefyd, awgrymodd rhai rhanddeiliaid newidiadau mwy sylfaenol i'r neilltuad o gymorth. Awgrymwyd y dylid seilio hyn ar nodi safleoedd â'r potensial mwyaf ac yna paru grwpiau cymunedol â'r safleoedd hyn. Byddai hyn yn sicrhau y byddai cymorth yn cael ei dargedu at brosiectau sydd fwyaf tebygol o lwyddo ond hefyd, o bosibl, yn eithrio rhai cymunedau rhag cael gafael ar gefnogaeth. Awgrym arall oedd y dylid annog tiffeddianwyr, ffermwyr neu BBaChau a allai fod â diddordeb mewn datblygu prosiectau lle rhennir perchnogaeth gyda grŵp cymunedol yn fwy ymarferol i wneud cais am gefnogaeth. Roedd hyn ar y sail y byddent mewn sefyllfa well i ddatblygu'n llwyddiannus na phrosiectau sy'n eiddo i'r gymuned yn unig, er y byddai graddfa'r manteision i'r gymuned yn cael ei lleihau. Mae'r ddau awgrym hwn yn awgrymu cyfaddawdau posibl rhwng targedu cymorth at y prosiectau sydd fwyaf tebygol o lwyddo, a materion yn ymwneud â lles a thegwch cymunedol.
- **Y cymorth a ddarperir.** Yr adborth cyffredinol a gafwyd gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid oedd y dylid cynnal cymorth SDT Ynni'r Fro fel y mae ar y cyfan am weddill y rhaglen ac, os yw'n bosibl, y tu hwnt i hynny. Cafwyd galwadau hefyd am y ddarpariaeth o adnoddau ychwanegol i ategu'r cymorth SDT gyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys

llyfrgell ganolog o ffurflenni, contractau a thempledi, hyfforddiant i grwpiau ar reoli prosiectau, ffynhonnell benodol o gyngor ariannol a chyfreithiol, a dulliau i hwyluso dysgu rhwng cymheiriaid. O ran cyllid paratoadol, awgrymodd rhai y dylid cynyddu cyfyngiad cyfredol Ynni'r Fro o £30,000 neu y dylid diwygio'r cydbwysedd rhwng cyllid Ynni'r Fro ar gyfer cymorth a chyfalaf paratoadol o blaid y cyntaf. Awgrym arall oedd darparu mynediad at gyllid benthyciad i'r grwpiau er mwyn talu eu costau paratoadol. Ceir cynsail ar gyfer hyn yn yr Alban lle mae rhaglen CARES (*Community And Renewable Energy Scheme*) eisoes yn cynnig "benthyciad cyn-cynllunio" o hyd at £150,000, sy'n cael ei ddileu os bydd prosiect yn methu â mynd y tu hwnt i'r cam cynllunio.

- **Gweinyddu'r rhaglen.** Awgrymwyd bod angen cyfathrebu gwell a mwy o rannu gwybodaeth rhwng gwahanol bartïon sy'n cymryd rhan yn y ddarpariaeth o Ynni'r Fro. Awgrymwyd cyfarfodydd mwy rheolaidd ac amlach rhwng SDTau, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Llywodraeth Cymru i drafod materion strategol y rhaglen. Awgrymwyd hefyd y dylid darparu mwy o eglurder i grwpiau cymunedol o ran yr hyn sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth Ynni'r Fro a'r hyn nad ydyw, a thryloywder o ran sut y gwneir penderfyniadau ar y mathau hyn o faterion.
- **Rhyngweithio â chyrrff allanol.** Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen mwy o ddeialog rhwng y rhai sy'n darparu Ynni'r Fro a chyrrff allanol fel Ofgem, CNC ac ACLlau, er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r rhwystrau allanol i'r rhaglen. Awgrymwyd gan nifer o rhanddeiliaid y dylid atgyfodi'r bwriad gwreiddiol o ffurfio grŵp llywio Ynni'r Fro yn cynnwys cynrychiolwyr o Ofgem, CNC ac ACLlau (a chyrrff allanol eraill fel gweithredwyr rhwydweithiau ardal), a'i sefydlu.
- **Mesurau ehangach.** Er bod yr ymatebwyr yn gadarnhaol am werth posibl y newidiadau uchod, roedd llawer yn teimlo na fyddent yn ddigon ar eu pen eu hunain i oresgyn yr heriau allanol arwyddocaol sy'n wynebu Ynni'r Fro a'r grwpiau y mae'n eu cynorthwyo ar hyn o bryd. Ystyriwyd bod angen mesurau ehangach gan Lywodraeth Cymru, fel gosod targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy cymunedol, fel yn yr Alban, a chyflwyno canllawiau cryfach i awdurdodau cynllunio lleol a CNC i gynorthwyo prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol.

Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol yn seiliedig ar ddehongliad y tîm gwerthuso o'r canfyddiadau blaenorol. Nid ydynt o anghenraid yn cynrychioli safbwyntiau'r holl grwpiau a rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad na safbwyntiau Llywodraeth Cymru. Mae'r argymhellion wedi eu strwythuro ar sail amcanion gwreiddiol y gwerthusiad o:

Ystyried priodoldeb amcanion, dangosyddion a thargedau'r rhaglen

- Gosod targedau ar gyfer y dyfodol sy'n adlewyrchu'r heriau a'r amserlenni cyfredol yn y sector, ac sy'n caniatáu i brosiectau ar raddfa lai gael eu cynorthwyo.
- Datblygu dangosyddion ychwanegol i fesur effeithiau canolraddol.
- Mabwysiadu dangosyddion mwy hyblyg i adlewyrchu effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol.

Ystyried y rhwystrau a'r cyfyngiadau y mae'r rhaglen wedi eu hwynebu

- Defnyddio data a gasglwyd trwy Ynni'r Fro, a ffynonellau eraill, i ddangos manteision ynni adnewyddadwy cymunedol yn well i gyrff cyhoeddus eraill.
- Ar lefel prosiect – cefnogi deialog barhaus rhwng SDTau a swyddogion CNC ac ACLlau.
- Ar lefel rhaglen – sefydlu grŵp llywio aml-asiantaeth a fynychir gan gynrychiolwyr CNC, ACLlau ac efallai rhanddeiliaid eraill fel Ofgem a gweithredwyr rhwydweithiau ardal.
- Ar lefel Llywodraeth Cymru – ystyried mesurau ffurfiol i hybu ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru, e.e. gosod targedau a diwygiadau i'r canllawiau cynllunio cyfredol.

Nodi pa argymhellion y gellir eu gwneud i wella'r rhaglen gyfredol

- Adolygu'r dull cyfredol o neilltuo cymorth trwy Ynni'r Fro ac ymgynghori â rhanddeiliaid ar y dull i'w fabwysiadu mewn unrhyw raglen olynol.
- Parhau a neilltuo'r cymorth SDT a ddarperir trwy Ynni'r Fro ar hyn o bryd.
- Creu llyfrgell ganolog o adnoddau ar gyfer grwpiau cymunedol.
- Yn y byrdymor – parhau i ddarparu cyllid grant paratoadol.
- Yn fwy hirdymor - rhoi ystyriaeth i gyflwyno cronfa fenthyciadau cylchol, wrth gefn ochr yn ochr â chyllid grant paratoadol, neu gefnogi cronfa fenthyciadau ar gyfer ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru wedi ei chyflwyno gan gorff arall.
- Dechrau trafodaethau gyda'r grwpiau am gyllid cyfalaf ar y cyfle cyntaf, a rhoi ystyriaeth ddifrifol i ddarparu cyngor a chefnogaeth ychwanegol yn y maes hwn.

Ystyried cynnydd tuag at strategaeth ymadael a llywio datblygiadau ar gyfer rhaglen olynol i Ynni'r Fro

- Parhau'r ddarpariaeth o SDT a chymorth ariannol i grwpiau cymunedol y tu hwnt i raglen gyfredol Ynni'r Fro.
- Datblygu strategaeth bontio ar gyfer Ynni'r Fro sy'n rhoi sicrwydd i grwpiau am ffynonellau cymorth yn y dyfodol.

- Sefydlu dulliau i gasglu'r hyn a ddysgwyd o Ynni'r Fro, trwy ddyddiaduron dysgu ac astudiaethau achos er enghraifft, i lywio rhaglen olynol.